# Murlun Dosbarth o Gynefin y Pwll

Anifeiliaid a Phlanhigion
Yr Amgylchedd

## Bwriad Dysgu

- *Dilyn ymweliad â phwll drwy greu arddangosfa drawiadol yn y dosbarth.*
- Dysgu am yr amrywiaeth o greaduriaid a geir yn y pwll.
- Dysgu am y cynefinoedd bach gwahanol sydd i'w gweld yn y pwll.

## Sgiliau Cwricwlwm Cenedlaethol

**Gwyddoniaeth** Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol.

- Cyd-ddibyniaeth organebau byw yn y ddau amgylchedd hynny a sut cânt eu cynrychioli fel cadwynau bwyd.
- Y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny.

**ADCDF** Yr amgylchedd naturiol

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Creu murlun mawr yn y dosbarth neu mewn lle mawr amlwg yn yr ysgol.
- Trafod y gwahanol greaduriaid a phlanhigion a geir yn y pwll.
- Edrych ar ffotograffau o bethau sydd i'w gweld yn eich pwll lleol.
- Os oes bwrdd gwyn gennych yn yr ystafell ddosbarth, agor www.naturegrid.org.uk/pondexplorer/pondexplorer.html yn eich porwr gwe.
- Tynnu llun o groestoriad o bwll ar ddarn mawr o bapur.
- Gofyn i'r disgyblion dynnu lluniau o elfennau amrywiol y pwll a'u torri allan.

## Adnoddau

www.naturegrid.org.uk

www.naturegrid.org.uk/pondexplorer/pondexplorer.html

Pwll lleol neu bwll ar dir yr ysgol.

Darnau mawr o bapur, deunyddiau celf, pinnau, pensiliau, pastelau, paent, ffotograf

# Murlun Dosbarth o Gynefin y Pwll

## Amlinelliad o'r Wers

- Adolygwch ymweliad diweddar â'r pwll lleol.

Pa greaduriaid rydym ni wedi eu gweld? Allwch chi eu henwi?

Pa blanhigion rydym ni wedi eu gweld? Allwch chi eu henwi?

- Edrych ar ffotograffau o'r anifeiliaid a'r planhigion rydych chi wedi eu gweld.
- (Neu edrych yn *www.naturegrid.org.uk/pondexplorer/pondexplorer.html* sydd â phwll rhithwir.)
- Trafod y pethau mae'r disgyblion wedi eu darganfod a thrafod y gwahanol ardaloedd bach yn y pwll.
- Dosbarthu'r daflen proffil pwll, gan annog y disgyblion i geisio enwi'r gwahanol ardaloedd bach.
- Mewn grwpiau bach, gall y disgyblion chwilio am y gwahanol anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr ardaloedd bach.
- Gofyn i'r disgyblion dynnu lluniau ohonynt, eu lliwio mewn amryw ffyrdd, eu torri allan a'u gludo ar gefndir y murlun mawr, yn y fan lle maent yn byw.
- Gellir creu arddangosfa drawiadol o waith y disgyblion drwy ddefnyddio'r murlun fel sail gwaith ysgrifenedig pellach.

**Gweithgareddau Estyn Posibl**
Gofyn i'r disgyblion ysgrifennu adroddiad am anifail yn y pwll – gellir ddefnyddio'r ffrâm ysgrifennu fel cymorth.
Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau bach i baratoi adroddiad llafar am un o greaduriaid y pwll – defnyddio'r ffrâm adroddiad llafar fel cymorth.

Pa gadwyni bwyd gallwch chi eu gweld yn y pwll?

Pa gynefinoedd sy'n gweddu orau i anghenion y creaduriaid hyn?

Beth yw'r cynefinoedd gwahanol a geir yn y pwll?

# Proffil Pwll

| |
|---|
| Uwchben yr wyneb |
| Wyneb y pwll |
| Canol y d**ŵ**r |
| Ymyl y pwll |
| Gwaelod y pwll |

